7500-10054-CY Rev B

# Canllaw Cychwyn Cyflym

## AgaMatrix WaveSense JAZZ™ System Monitro Glwcos Gwaed

**Gofal Cwsmeriaid: 0800 093 1812**
Os bydd argyfwng, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd neu ymateb meddygol brys.




AgaMatrix

CYWIRDEB EN ISO 15197:2015

DIM COD

**Mae batris sbâr wedi eu cynnwys gyda'ch mesurydd!**

Mae dau fatri sbâr lithiwm, 3-folt CR2032 wedi eu cynnwys yng nghas cludo eich mesurydd. Gweler y cyfarwyddiadau ar y cefn ar gyfer newid batris.




## Ynghylch System AgaMatrix WaveSense JAZZ

Mae System Monitro Glwcos Gwaed AgaMatrix WaveSense JAZZ yn eich galluogi i wirio eich lefelau glwcos gyda gwaed cyfan. I weld y cyfarwyddiadau llawn, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ.





### Mesurydd Glwcos Gwaed

1) **Arddangos**
2) **Botwm TIC:** cadarnhau neu ddethol
3) **Botwm Saeth I LAWR:** sgrolio ymlaen
4) **Botwm Saeth I FYNY:** sgrolio yn ôl
5) **Botwm GOLAU ÔL**
6) **Porth Stribed Profi**




### Stribed Profi

1) **Bariau Cyswllt:** rhowch y pen yma yn y porth stribed profi
2) **Ffenestr Llenwad Gweledol:** mae'n llenwi'n llwyr pan fydd digon o sampl wedi ei weithredu
3) **Ardal Sampl:** rhoddir gwaed neu doddiant rheoli yma




### System Pigo

1) Carn Clicied
2) Detholwr Dyfnder
3) Dyfnder
4) Botwm Rhyddhau
5) Alldaflwr Pigyn
6) Corff y Ddyfais Pigo
7) Daliwr Pigyn
8) Cap y Ddyfais Pigo
9) Cap Profi Safle Amgen (Clir)
10) Pigyn
11) Gorchudd Pigyn

***RHYBUDD:** RHAID defnyddio'r Ddyfais Pigo AgaMatrix i gael sampl gwaed gan un person YN UNIG ar gyfer hunanbrofi. Peidiwch â defnyddio unrhyw bigyn na dyfais pigo mae rhywun arall wedi ei defnyddio.*

## Camau Sylfaenol *(I weld y cyfarwyddiadau llawn, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ)*

### 1 Rhowch y stribed profi yn y mesurydd:

Rhowch y stribed profi, gyda'r bariau cyswllt yn wynebu i fyny, yn y porth stribed profi. Bydd y mesurydd yn cael ei ysgogi'n awtomatig.


*RHYBUDD: I sicrhau canlyniadau cywir, golchwch eich dwylo gyda dŵr cynnes, sebonllyd a'u sychu cyn pob prawf.*



### 2 Pigwch yr ardal brawf:

Gweler y cyfarwyddiadau ar sut i baratoi'r ddyfais pigo, ar y dde.


Pwyswch y ddyfais pigo yn erbyn y safle i'w bigo a gwasgwch y botwm rhyddhau.




### 3 Casglu diferyn gwaed:


Sychwch y diferyn cyntaf o waed sy'n ymddangos yn defnyddio hances bapur neu dywel papur glân.

Gwasgwch o waelod eich bys tuag at y blaen, nes bydd ail ddiferyn bychan o waed yn ffurfio.



### 4 Dewch â'r stribed profi at y sampl gwaed:


Mae'r stribed profi yn sugno'r gwaed i mewn i'r stribed profi trwy'r ardal sampl.



### 5 Tynnwch y stribed profi oddi ar y sampl gwaed pan fyddwch yn clywed y bîp:

Bydd eich mesurydd yn bipian unwaith pan fydd angen i chi dynnu blaen y stribed profi o'ch sampl gwaed. Mae'r bar sgrolio ac 1-2-3 yn dangos bod y mesurydd yn cyfrifo'ch canlyniad.




*Bydd y ffenestr llenwad gweledol i gyd yn troi'n goch.*

### 6 Camau olaf:

Mae canlyniad eich prawf yn cael ei arddangos ar y mesurydd ynghyd â thag amser bwyd (yn fflachio). Gwasgwch ar y botwm TIC i'w gadarnhau. I newid y tag neu am ragor o fanylion, gweler eich canllaw perchennog.





Tynnwch y stribed profi a ddefnyddiwyd. Bydd y mesurydd yn diffodd yn awtomatig. Trowch gap y ddyfais pigo i ffwrdd a rhowch y gorchudd pigyn yn ôl yn ei le. Tynnwch y pigyn a ddefnyddiwyd. Gwaredwch y stribed a'r pigyn sydd wedi eu defnyddio yn briodol.




## Paratoi'r System Pigo


**1** Trowch y cap oddi ar y ddyfais pigo.




**2** Rhowch bigyn newydd i mewn i'r daliwr pigyn yn gadarn. Gwasgwch y botwm rhyddhau i ddangos mwy o'r pigyn.




**3** Daliwch y pigyn a throi'r gorchudd oddi arno.




**4** Rhowch gap y ddyfais pigo yn ei ôl.



**5** Gosodwch y dyfnder trywanu croen.




**6** Tynnwch y carn cliciedallan nes ei fod yn clicio.




CE 0123

AgaMatrix, Inc. 7C Raymond Ave Salem, NH 03079 USA

EC REP MDSS GmbH, Schiffgraben 41 30175 Hannover, Yr Almaen



©2021 AgaMatrix, Inc. Cedwir pob hawl. Mae pob nod masnach ac/neu hawlfraint yn eiddo i'w perchnogion perthnasol.

# Canllaw Cychwyn Cyflym

AgaMatrix WaveSense JAZZ™
System Monitro Glwcos Gwaed



## CYFARWYDDIADAU AMNEWID BATRI

**PWYSIG: Defnyddiwch fatris CR2032 neu DL2032 yn unig gyda'r mesurydd hwn. Ffoniwch Gofal Cwsmeriaid ar 0800 093 1812 am gymorth.**

### Ynghylch Batris y Mesurydd AgaMatrix WaveSense JAZZ




Mae gan y Mesurydd AgaMatrix WaveSense JAZZ ddau fatri lithiwm CR2032, 3-folt tu fewn.

**Batri #1**: yn pweru'r golau ôl yn unig

**Batri #2**: yn pweru swyddogaethau profi a dewislen y mesurydd

### Negeseuon Arddangos Batri



**Neges Batri Isel:** Neges yn fflachio
**YSTYR:** Mae Batri #2 yn eich mesurydd yn isel. Mae'n dal yn bosibl defnyddio eich mesurydd ar gyfer profion.



**Neges Batri Gwag:** Neges yn fflachio
**YSTYR:** Mae Batri #2 eich mesurydd wedi darfod. Ni ellir defnyddio'r mesurydd ar gyfer profion nes byddwch wedi newid Batri #2.




**Batri Golau Ôl Isel:** Mae'r golau ôl yn fflachio pan fydd y defnyddiwr yn gwasgu'r botwm GOLAU ÔL (💡) button.
**YSTYR:** Mae Batri #1 eich mesurydd yn isel. Mae'n dal yn bosibl defnyddio eich mesurydd ar gyfer profion.

**Os bydd Neges Batri Isel neu Wag yn arddangos ar eich mesurydd, NEWIDIWCH A CHAEL GWARED AR FATRI #2 YN UNIG.**

### Amnewid y Batris *(I gael rhagor o fanylion, gweler eich Canllaw Perchennog AgaMatrix WaveSense JAZZ)*


**1 Agorwch ddrws y batri:**

Sicrhewch fod y mesurydd wedi ei ddiffodd. Trowch y mesurydd fel eich bod yn edrych ar ddrws y batri. Gwthiwch glip drws y batri i'r dde i'w agor. Tynnwch ddrws y batri. Byddwch yn ofalus nad ydych yn colli drws y batri.





**2 I amnewid batri'r mesurydd (#2):**

Tynnwch y batri sydd wedi darfod, tynnwch y tab priodol i gael y batri allan. **Mae batri sbâr wedi ei gynnwys ym mhoced cas cludo eich mesurydd.** Lleolwch y batri sbâr newydd. Rhowch y batri newydd i mewn gyda'r arwydd positif (+) yn wynebu i fyny tuag atoch chi.





**3 I amnewid batri'r golau ôl (#1):**

Tynnwch y batri sydd wedi darfod, tynnwch y tab priodol i gael y batri allan. **Mae batri sbâr wedi ei gynnwys ym mhoced cas cludo eich mesurydd.** Lleolwch y batri sbâr newydd. Rhowch y batri newydd i mewn gyda'r arwydd positif (+) yn wynebu i fyny tuag atoch chi.




**4 Caewch ddrws y batri:**

Rhowch ddrws y batri ar ongl yn erbyn y mesurydd a'i wasgu i lawr nes bydd yn snapio'n ysgafn i'w le. Sicrhewch fod y tagiau plastig wedi eu gwthio dan ddrws y batri. Gwnewch yn siŵr bod drws y batri wedi ei gau'n llwyr cyn defnyddio. Gwaredwch y batris yn unol â'ch rheoliadau amgylcheddol lleol.



### Gosodiad Amser a Dyddiad wedi Amnewid Batri


***PWYSIG: Pan fydd y mesurydd wedi ei ddiffodd a'ch bod yn newid batri #2, efallai y byddwch yn colli'r wybodaeth amser a dyddiad wedi tynnu'r batri o'r mesurydd. Os bydd hyn yn digwydd, trowch y mesurydd ymlaen wedi gosod y batri newydd a bydd yn eich ysgogi i osod yr amser a'r dyddiad.***

Os oes angen gosod dyddiad ac amser, bydd y gair "SET" yn cael ei arddangos y tro cyntaf bydd y mesurydd yn troi ymlaen wrth wasgu'r botwm TIC (✓) neu roi stribed profi i mewn.

*Sylwer: Mae'r mesurydd yn cadw'r fformat dyddiad ac amser [amser 24 neu 12 awr, M-d (Mis-Dydd) neu d-M (Dydd-Mis)].*


**1 Gosod y flwyddyn:**

Gosodwch y flwyddyn (fflachio) gyda'r botymau saeth I LAWR (⌄) neu I FYNY (⌃). Gwasgwch ar y botwm TIC (✓) i gadarnhau eich detholiad.




**2 Gosod y mis:**

Gosodwch y mis (fflachio) gyda'r botymau saeth I LAWR (⌄) neu I FYNY (⌃). Gwasgwch ar y botwm TIC (✓) i gadarnhau eich detholiad.




**3 Gosod y dydd:**

Gosodwch y dydd (fflachio) gyda'r botymau saeth I LAWR (⌄) neu I FYNY (⌃). Gwasgwch ar y botwm TIC (✓) i gadarnhau eich detholiad.




**4 Gosod yr awr**

Gosodwch yr awr (fflachio) gyda'r botymau saeth I LAWR (⌄) neu I FYNY (⌃). Gwasgwch ar y botwm TIC (✓) i gadarnhau eich detholiad.



**5 Gosod y munudau:**

Gosodwch y munudau (fflachio) gyda'r botymau saeth I LAWR (⌄) neu I FYNY (⌃). Gwasgwch ar y botwm TIC (✓) i gadarnhau eich detholiad. Os cafodd y mesurydd ei droi ymlaen trwy fewnosod stribed profi, mae gwasgu TIC (✓) yn eich galluogi i gwblhau prawf. Os cafodd y mesurydd ei droi ymlaen yn defnyddio'r botwm TIC (✓), bydd y mesurydd yn cychwyn yn y modd dewislen.



**Gofal Cwsmeriaid AgaMatrix: 0800 093 1812**
*Os bydd argyfwng, cysylltwch â'ch gweithiwr gofal iechyd neu ymateb meddygol brys.*

Welsh